Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# talkSPORT – Cynigion i leihau darpariaeth AM

## Amrywiadau arfaethedig i drwydded radio masnachol cenedlaethol

**YMGYNGHORIAD:**


Dyddiad cyhoeddi: 17 Chwefror 2023

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 17 Mawrth 2023

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg 1

Cefndir 4

Fframwaith Cyfreithiol 6

4. Ein hasesiad dros dro 12


## Atodiad


A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 17

A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 20

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad 21

A4. Cwestiynau ymgynghori 23

A5. Trwydded darlledu talkSPORT 24

A6. Cyflwyniad talkSPORT 25

# Trosolwg

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Mae talkSPORT yn gofyn am ganiatâd Ofcom i ddiffodd pedwar safle trosglwyddyddion a fyddai'n lleihau darpariaeth ei drwydded radio masnachol cenedlaethol AM o 93% o boblogaeth oedolion y DU i 89.9%. Maent yn cynnig diffodd pedwar o blith dau ddeg dau o safleoedd trosglwyddyddion AM sydd gan talkSPORT ar hyn o bryd. Byddai hyn yn lleihau rhwydwaith cenedlaethol o drosglwyddyddion tonfedd ganolig talkSPORT i ddeunaw o safleoedd.

Rydyn ni'n bwriadu cymeradwyo'r cais hwn, ond cyn dod i benderfyniad terfynol rydyn ni'n rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y cais a'n penderfyniad dros dro. Y rheswm am hyn yw, os caniateir y newidiadau, bydd rhai gwrandawyr yn colli'r gallu i gael talkSPORT ar y band AM (tonfedd ganolig), ac oherwydd y gallai gorsafoedd radio masnachol eraill fod â diddordeb yn y ffordd rydyn ni'n bwriadu ei ddefnyddio yn yr achos hwn. Byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau gan randdeiliaid cyn gwneud penderfyniad terfynol.

## Cyflwyniad

1.1 Mae gan talkSPORT Limited drwydded radio masnachol cenedlaethol i ddarlledu ei wasanaeth radio siarad sy'n canolbwyntio ar chwaraeon ledled y DU ar y band AM (tonfedd ganolig). Dan ei drwydded darlledu, mae'n rhaid i talkSPORT sicrhau bod ei wasanaeth yn gwasanaethu cymaint o'r DU fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.

1.2 Mae talkSPORT wedi gofyn am gau pedwar o'i safleoedd ar unwaith cyn gweithio at gau un deg tri safle arall pan fyddant yn anhyfyw[1] dros y blynyddoedd nesaf. Wrth gau pedwar safle trosglwyddyddion, byddai hyn yn lleihau darpariaeth ei drwydded radio masnachol cenedlaethol AM o 93% o boblogaeth oedolion y DU (15 oed a hŷn) i 89.9%. Os bydd talkSPORT yn bwrw ymlaen i gau 13 safle trosglwyddyddion arall yn y dyfodol, bydd hyn yn lleihau canran darpariaeth o'i rwydwaith AM masnachol cenedlaethol AM ymhellach i 85% o boblogaeth oedolion y DU.

1.3 Nid oes gan Ofcom y pŵer i roi caniatâd i talkSPORT gynnal rhaglen dreigl o gau safleoedd trosglwyddyddion ar ddyddiadau i'w penderfynu gan talkSPORT. Felly, dim ond cynigion talkSPORT i gau pedwar safle trosglwyddyddion ar unwaith y bydd Ofcom yn eu hystyried, sy'n cyfateb i leihau'r ddarpariaeth o 93% i 89.9% o boblogaeth oedolion y DU[2].

1.4 Mae talkSPORT wedi gwneud y cynigion hyn oherwydd bod gostyngiad yn y niferoedd sy'n gwrando ar ei wasanaeth ar AM, mwy yn gwrando ar lwyfannau amgen, yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal safleoedd trosglwyddyddion AM gyda phrisiau ynni uchel ar hyn o bryd. Roedd hefyd yn tynnu sylw at argymhelliad allweddol a wnaed yn Adolygiad

[1] Mae TalkSPORT yn diffinio "anhyfyw" drwy fesur yr oriau gwrando a gyflenwir drwy lwyfan AM o fewn ardal darpariaeth pob trosglwyddydd, ac asesu gwerth masnachol yr oriau gwrando hynny yn erbyn y gost o weithredu pob safle trosglwyddydd perthnasol.

[2] Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio data cyfrifiad Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2001

Sain a Radio Digidol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") yn 2021 a oedd yn datgan fel a ganlyn:

*Dylai diwydiant ddechrau cynllunio ar gyfer ymddeoliad tymor hir gwasanaethau analog. Dylai'r BBC, Wireless a Bauer (gweithredwyr gwasanaethau MW cenedlaethol) ddatblygu cynllun ar gyfer mudo o wasanaethau AM ar ryw adeg yng nghanol y 2020au.*

## Asesiad dros dro Ofcom

1.5 Yn unol ag amod 2(1) y Drwydded Darlledu, mae'n rhaid i talkSPORT sicrhau bod ei wasanaeth radio analog yn gwasanaethu cymaint o'r DU fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.[3]

1.6 Ar ôl ystyried cynigion talkSPORT, ein barn ni dros dro yw nad yw'n rhesymol yn ymarferol mwyach i'r Trwyddedai barhau i wasanaethu 93% o boblogaeth oedolion y DU.

1.7 Felly, rydyn ni'n bwriadu derbyn cynigion talkSPORT, ac rydyn ni o'r farn y byddai ein penderfyniad dros dro yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol. Yn gryno, dyma'r rhesymau pam:

a) yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydyn ni o'r farn y byddai darlledu'r gwasanaeth trwyddedig i 89.9% (o 93%) o boblogaeth oedolion y DU yn dal i sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm;

b) mae sicrhau bod talkSPORT ar lwyfannau amgen yn debygol o gynnal lluosogrwydd darparwyr radio a gwasanaethau radio yn yr ardaloedd daearyddol y mae'r cynigion yn effeithio arnynt; a

c) Mae adolygiad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi nodi y dylai trwyddedeion AM cenedlaethol geisio datblygu cynllun ar gyfer mudo eu gwasanaethau erbyn canol y 2020au. Mae dyfodol darpariaeth genedlaethol AM wedi cael ei nodi fel marchnad sy'n dirywio, a dangosir hyn yn ffigurau RAJAR a ddarparwyd gan talkSPORT yn ei gynnig. Wrth ystyried y pwynt hwn ochr yn ochr â'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal safleoedd trosglwyddyddion AM, ein hasesiad dros dro yw nad yw'n rhesymol yn ymarferol mwyach i'r Trwyddedai gynnal a chadw'r pedwar safle y mae am eu tynnu o'r drwydded.

1.8 Os byddwn yn penderfynu derbyn cynigion talkSPORT, byddem yn amrywio ei drwydded darlledu a'i drwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr drwy ddileu'r cyfeiriad at y safleoedd trosglwyddyddion y mae talkSPORT yn bwriadu eu cau.

[3] Mae amod y drwydded fel a ganlyn: Rhaid i'r Trwyddedai ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig a nodir yn yr Atodiad ar gyfer cyfnod y drwydded, a rhaid iddo sicrhau bod y Gwasanaeth Trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r ardal drwyddedig fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.

## Y camau nesaf

1.9 Rydyn ni'n gobeithio gwneud penderfyniad terfynol a chyhoeddi datganiad ym mis Ebrill 2023. Byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau gan randdeiliaid cyn gwneud penderfyniad terfynol. Mae gan randdeiliaid tan 17 Mawrth 2023 i roi sylwadau.

# Cefndir

2.1 Mae talkSPORT Limited ('talkSPORT', neu'r 'Trwyddedai') yn dal un o'r tair trwydded radio masnachol analog cenedlaethol[4] yn y DU a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Darlledu 1990 (y "Trwydded Darlledu"). O dan delerau ei Drwydded Darlledu, mae'n rhaid iddo ddarparu gwasanaeth radio sy'n wasanaeth siarad 24 awr sy'n cynnwys rhaglenni sy'n ymwneud yn bennaf â chwaraeon. Bydd bwletinau newyddion rheolaidd yn cael eu cynnwys.

2.2 Cafodd y Drwydded Darlledu ei ddyfarnu yn gyntaf drwy broses arwerthiant ym mis Gorffennaf 1994, ac mae wedi cael ei hadnewyddu ar dri achlysur. Cafodd y broses adnewyddu ddiweddaraf ei chwblhau ym mis Rhagfyr 2021, pan wnaethom benderfynu adnewyddu'r Drwydded Darlledu am gyfnod pellach o ddeng mlynedd, tan 31 Rhagfyr 2031.[5]

2.3 Ers ei lansio yn 1994, mae talkSPORT wedi cynyddu darpariaeth ei wasanaeth radio cenedlaethol AM yn raddol i ddarparu'r gwasanaeth i 95% o boblogaeth oedolion y DU drwy ychwanegu rhagor o safleoedd trosglwyddyddion o'i wirfodd. Yn 2019, cymeradwyodd Ofcom gais gan talkSPORT i leihau ei ddarpariaeth i 93%[6] .

2.4 Ar 10 Hydref 2022, cafodd Ofcom gyflwyniad ffurfiol gan talkSPORT yn cynnig diffodd un deg saith o safleoedd trosglwyddyddion AM, gan leihau rhwydwaith trosglwyddyddion tonfedd ganolig cenedlaethol talkSPORT i bum safle pŵer uchel craidd. Dywedodd talkSPORT y byddai ei gynigion yn lleihau'r ddarpariaeth i 85%. Dyma'r newidiadau:

a) **cau pedwar safle trosglwyddydd ar unwaith:** Dumfries (Dumfries a Galloway), Kingston upon Hull (East Riding of Yorkshire), Fern Borrow (Bournemouth) a Greenside Scalp (Tayside). Roedd talkSPORT wedi nodi bod y pedwar safle trosglwyddyddion hyn yn ardaloedd a allai fod yn anhyfyw yn barod.

b) **cau'r un deg tri safle arall yn raddol**: Fareham (Hampshire), Stockton (Durham/Gogledd Swydd Efrog), Lydd (Caint), Southwick/Brighton (Gorllewin Sussex), Dartford Tunnel (Caint), Clipston (Gorllewin Swydd Northampton), Duxhurst (Surrey), Wallasey (Swydd Gaer), Lisnagarvey (Swydd Antrim, Gogledd Iwerddon), Boston (Suffolk), Wrekenton (Newcastle), Postwick (Norfolk), Rusthall (Tunbridge Wells). Gofynnodd talkSPORT am hyblygrwydd i gau'r safleoedd eraill hyn pan fyddant yn anhyfyw.

2.5 Nid oes gan Ofcom y pŵer i roi caniatâd uwch i talkSPORT gynnal rhaglen dreigl o gau safleoedd trosglwyddyddion ar ddyddiadau i'w penderfynu gan talkSPORT. Felly, dim ond cynigion talkSPORT i gau pedwar safle trosglwyddyddion ar unwaith y bydd Ofcom yn eu hystyried, Bydd yn rhaid i talkSPORT gyflwyno cynigion newydd i Ofcom os yw'n dymuno cau ar unwaith unrhyw un o'r un deg tri safle arall y cyfeirir atynt uchod.

[4] Absolute Radio a Classic FM sydd â'r ddwy drwydded arall.
[5] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/renewal-independent-national-radio-licences
[6] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/talksport-proposals-to-reduce-am-coverage

2.6 Yn ogystal â’r drwydded AM genedlaethol hon, mae talkSPORT hefyd yn darlledu’n genedlaethol drwy DAB ar amlblecs Digital One. Mae'r gwasanaeth ar gael hefyd ar y teledu ar lwyfannau Freeview, Sky a Virgin Media ar y teledu, ac ar y rhyngrwyd hefyd.

2.7 Cyhoeddir copi o’r Drwydded Darlledu fel dogfen ar wahân (Atodiad 5).

2.8 Mae fersiwn heb fod yn gyfrinachol o gyflwyniad talkSPORT, sy’n nodi ei gynigion a’r rhesymau drostynt, yn cael ei chyhoeddi fel dogfen ar wahân (Atodiad 6).

# Fframwaith Cyfreithiol

## Strwythur yr adran hon

3.1 Yn yr adran hon, rydyn ni'n nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer asesu cynigion talkSPORT fel a ganlyn:

a) rydyn ni'n nodi ein dyletswyddau statudol sy'n arbennig o bwysig wrth asesu a ddylem ganiatáu i talkSPORT weithredu'r newidiadau arfaethedig;

b) rydyn ni'n crynhoi amodau perthnasol y drwydded;

c) rydyn ni'n egluro sut rydyn ni'n bwriadu defnyddio ein dyletswyddau statudol i asesu cynigion talkSPORT; a

d) yn olaf, rydyn ni'n egluro sut y byddem yn gweithredu'r newidiadau a gynigir gan talkSPORT a'n dull o asesu effaith.

3.2 Er mwyn bod yn gryno, rydym yn cyfeirio at: y Ddeddf Cyfathrebiadau fel "**Deddf 2003**"; Deddf Darlledu 1990 fel "**Deddf 1990**"; a Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 fel "**Deddf TDd**".

## Dyletswyddau statudol Ofcom

3.3 Mae'r dyletswyddau statudol sy'n arbennig o bwysig i asesu cynigion talkSPORT yn deillio o Ddeddf 2003 a Deddf 1990.

### Ein dyletswyddau dan Ddeddf Cyfathrebu 2003

3.4 Prif ddyletswyddau Ofcom, fel y'u nodwyd yn adran 3 o Ddeddf 2003, yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu; a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. Mae'n rhaid i Ofcom hefyd sicrhau'r canlynol( ymhlith pethau eraill):

a) y gwneir y defnydd gorau posib o delegraffiaeth ddi-wifr y sbectrwm electromagnetig;[7]

b) bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau;[8] a

c) cynnal amrywiaeth ddigonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol[9].

3.5 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni roi sylw i'r ffactorau hynny sy'n ymddangos yn berthnasol i ni o dan yr amgylchiadau. Yn yr achos yma, byddwn ni'n ystyried bod diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas

[7] Adran 3(2)(a) o Ddeddf 2003.
[8] Adran 3(2)(c) o Ddeddf 2003.
[9] Adran 3(2)(d) o Ddeddf 2003.

Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol, yn hynod bwysig (adran 3(4)(l) o Ddeddf 2003).

3.6 Wrth wneud ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni hefyd o dan adran 3(3) o Ddeddf 2003 ystyried, ymhob achos, yr egwyddorion sy'n nodi y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac yn benodol dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau.

### Ein dyletswyddau dan Ddeddf Darlledu 1990

3.7 Hefyd, o dan adran 85 o Ddeddf 1990, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau analog cenedlaethol yn cael eu darparu, a rhaid i un ohonynt gynnwys sgwrs yn bennaf a rhaid i un arall gynnwys cerddoriaeth nad yw'n boblogaidd yn llwyr neu'n bennaf.

## Trwydded darlledu talkSPORT

### Y trothwy rhesymol yn ymarferol ar gyfer sicrhau darpariaeth

3.8 Yn unol ag amod 2(1) y Drwydded Darlledu, mae'n rhaid i talkSPORT sicrhau bod ei wasanaeth radio analog yn gwasanaethu cymaint o'r DU fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.[10] Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu adran 106(2) o Ddeddf 1990, sy'n darparu'r canlynol:

> Rhaid i drwydded genedlaethol neu leol gynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y gwasanaeth trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r ardal neu'r lleoliad y mae wedi'i drwyddedu ar ei gyfer fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.

3.9 Mae'r Drwydded Darlledu yn ei gwneud yn ofynnol i talkSPORT sicrhau darpariaeth o'r fath drwy ddarlledu'r gwasanaeth trwyddedig o 22 safle trosglwyddyddion. Mae lleoliad a nodweddion technegol y trosglwyddyddion hyn wedi'u nodi yn y Drwydded Darlledu (Rhannau II a III o'r Atodiad).

#### Methu â chydymffurfio â'r gofyniad ynghylch darpariaeth

3.10 Os methir â sicrhau bod y gwasanaeth radio trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r DU fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro, gall hyn olygu torri Amod 2(1) o'r Drwydded Darlledu.[11]

---

[10] Mae amod y drwydded fel a ganlyn: Rhaid i'r Trwyddedai ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig a nodir yn yr Atodiad ar gyfer cyfnod y drwydded, a rhaid iddo sicrhau bod y Gwasanaeth Trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r ardal drwyddedig fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.

[11] Byddem yn ymchwilio i unrhyw dorri amodau o'r fath yn unol â'n Canllawiau Gorfodi. Gweler Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu Ofcom (3 Ebrill 2017); https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/31942/general-procedures.pdf

3.11 Mae'r ystod o gosbau y gellir eu rhoi i drwyddedeion am dorri amod trwydded yn cynnwys cosbau ariannol, cwtogi'r drwydded, atal y drwydded neu ddirymu trwydded. Mae'r cosbau hyn wedi'u nodi yn y drefn statudol, ynghyd â gofynion gweithdrefnol,[12] ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn yr Amodau a nodir yn Rhan IV ('Amodau sy'n ymwneud â gorfodi trwyddedau') y Drwydded Darlledu.

### Amrywio'r drwydded

3.12 Mae gan Ofcom bŵer cyffredinol i wneud newidiadau i drwyddedau darlledu drwy gyflwyno hysbysiad amrywio i'r trwyddedai.[13] Mae'r pŵer hwn yn cael ei adlewyrchu yn Amod 23 y Drwydded Darlledu. Rhaid i ni roi cyfle rhesymol i'r trwyddedai gyflwyno sylwadau cyn gwneud yr amrywiad (Amod 23(1)(b) o'r Drwydded Darlledu).[14]

## Trwydded telegraffiaeth ddi-wifr talkSPORT

3.13 Mae gan talkSPORT hefyd drwydded a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 ("**Trwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr**") sy'n rhoi'r awdurdod iddo sefydlu, gosod a defnyddio gorsafoedd trosglwyddo radio a/neu gyfarpar radio (hynny yw, trosglwyddyddion) yn yr un lleoliadau ag a awdurdodwyd o dan ei Drwydded Darlledu (hynny yw, 22 safle i gyd) ar gyfer darlledu'r gwasanaeth darlledu sain a ddisgrifir yn y Drwydded Darlledu.

3.14 Mae Amod 3 y Drwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr yn caniatáu i Ofcom amrywio'r drwydded hon mewn amgylchiadau penodol, sy'n cynnwys pan fydd yr amrywiad "ar gais y Trwyddedai, neu gyda chydsyniad y Trwyddedai"[15], ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i'r trwyddedai yn ysgrifenedig neu drwy hysbysiad cyffredinol yn unol ag Atodlen 1 paragraff 6 o'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Mae gan Ofcom ddisgresiwn cyffredinol o dan baragraff 6 Atodlen 1 o'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i gytuno i amrywio trwyddedau, ond mae rheolau cyfreithiol yn cyfyngu ar y disgresiwn hwnnw. Yn benodol, yn unol â pharagraff 6A Atodlen 1 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, rhaid cyfiawnhau unrhyw amrywiad ar drwydded telegraffiaeth ddi-wifr yn wrthrychol.

---

[12] Adran 109-111 o Ddeddf 1990.

[13] Adran 86(5) o Ddeddf 1990. Mae Deddf 1990 yn darparu, os bydd Ofcom yn credu y byddai'n rhesymol yn ymarferol i wasanaeth cenedlaethol gael ei ddarparu i ardal ychwanegol sydd y tu allan i'r ardal sylfaenol sydd wedi'i nodi yn y broses ddyfarnu, y gall Ofcom fynnu bod y trwyddedai'n darparu'r gwasanaeth ar gyfer yr ardal ychwanegol honno (adran 106(3)). Fodd bynnag, nid yw Deddf 1990 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer ceisiadau i leihau'r ardal sylfaenol.

[14] Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu adran 86(5)(b) o Ddeddf 1990. Mae amod 24 y Drwydded Darlledu yn nodi ym mha ffordd y cawn roi unrhyw hysbysiad amrywio, gan gynnwys ar ffurf electronig (yn amodol ar y gofynion a nodir yn Adrannau 395 a 396 o Ddeddf 2003).
Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu Atodlen 1, paragraff 8(2)(a) o Ddeddf TDd 2006.

[15] Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu Atodlen 1, paragraff 8(2)(a) o Ddeddf TDd 2006.

# Defnyddio ein dyletswyddau statudol i asesu cynigion talkSPORT

## Tasg Ofcom

3.15 Ac ystyried y gofyniad a nodir yn Amod 2(1) o'r Drwydded Darlledu (gweler paragraff 3.8 uchod), dyma'r prif gwestiynau y mae angen i ni roi sylw iddynt:

a) a yw'n dal yn rhesymol yn ymarferol i talkSPORT wasanaethu **93%** o boblogaeth oedolion y DU gyda'i wasanaeth radio analog; a

b) os nad yw'r lefel honno o ddarpariaeth yn rhesymol yn ymarferol mwyach, a fyddai effaith gyfun y mesurau y mae talkSPORT wedi cynnig eu cymryd (hynny yw, darpariaeth lai i **89.9%** o boblogaeth oedolion y DU), yn bodloni'r trothwy "rhesymol yn ymarferol" a nodir yn amodau'r drwydded.

3.16 Mae'r trothwy "rhesymol yn ymarferol" yn golygu cael cydbwysedd er mwyn sicrhau cymesuredd. Yn syml, ar un ochr rydyn ni'n rhoi unrhyw gostau ac anfanteision eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ar lefel bresennol y ddarpariaeth ac, ar yr ochr arall, natur a maint y risgiau sy'n gysylltiedig pe bai'r ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaeth yn cael ei lleihau. Wrth ystyried y ffactorau amrywiol sy'n gysylltiedig â chael cydbwysedd, mae angen i ni ystyried ein dyletswyddau statudol.

## Penderfyniad dros dro Ofcom wrth ystyried ein dyletswyddau statudol

3.17 Rydyn ni o'r farn nad yw'n rhesymol yn ymarferol mwyach i talkSPORT wasanaethu **93%** o boblogaeth oedolion y DU gyda'i wasanaeth radio analog, ac felly rydyn ni'n bwriadu derbyn cynigion talkSPORT i gau pedwar safle trosglwyddyddion. Rydym o'r farn dros dro y byddai penderfyniad o'r fath yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol (paragraffau 3.4-3.7) am y rhesymau a nodir yn Adran 4 y ddogfen hon, sef, yn gryno:

a) Rydyn ni'r farn nad yw'n rhesymol yn ymarferol mwyach i'r Trwyddedai barhau i ddarlledu'r gwasanaeth o 22 safle. Mae'r Trwyddedai wedi dangos y gall barhau i wasanaethu 89.9% o'r DU drwy gyfrwng y deunaw safle trosglwyddyddion sy'n weddill.

b) Yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydyn ni o'r farn y byddai darlledu'r gwasanaeth trwyddedig i 89.9% o boblogaeth oedolion y DU yn dal i sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm;

c) Mae sicrhau bod talkSPORT ar lwyfannau amgen (gan gynnwys radio digidol, teledu a'r rhyngrwyd) yn debygol o fod yn ddigon i gynnal lluosogrwydd darparwyr radio a gwasanaethau radio yn yr ardaloedd daearyddol y mae'r cynigion yn effeithio arnynt; a

d) Mae dyfodol darpariaeth genedlaethol AM wedi cael ei nodi fel marchnad sy'n dirywio, ac mae ffigurau RAJAR a ddarparwyd gan talkSPORT yn eu cynnig wedi dangos nad yw'n fasnachol hyfyw mwyach i gynnal y pedwar safle y mae'n bwriadu eu cau oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â pharhau i gynnal safleoedd trosglwyddyddion AM.

3.18 Rydyn ni hefyd yn nodi y byddai'n rhesymol cyfiawnhau dileu'r cyfeiriad at safleoedd trosglwyddyddion y mae talkSPORT yn cynnig eu cau o'i Drwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr (gan ddod i rym o'r dyddiad y mae talkSPORT yn bwriadu eu cau) gan y byddai hyn yn addasu'r drwydded hon i gyd-fynd â'r Drwydded Darlledu.

## Gweithredu

3.19 Os byddwn yn penderfynu ei bod yn briodol i talkSPORT gymryd y mesurau arfaethedig, gan gau pedwar safle trosglwyddydd, mae angen i ni amrywio ei Drwydded Darlledu a Thrwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr drwy ddileu'r cyfeiriad at y safleoedd trosglwyddyddion y mae talkSPORT wedi cynnig eu cau, gan ddod i rym o'r dyddiad y mae talkSPORT yn bwriadu eu cau. I wneud hynny, mae angen i ni roi gwybod i talkSPORT a rhoi cyfle rhesymol iddynt gyflwyno sylwadau (gweler paragraff 3.12 uchod).

3.20 Er nad oes gofyniad statudol i ymgynghori'n ehangach, rydyn ni'n rhoi cyfle i randdeiliaid roi sylwadau yn yr achos penodol hwn, gan ein bod yn nodi'r canlynol:

a) Yn ôl amcangyfrifon Ofcom, ni fyddai tua 3.1% o boblogaeth oedolion y DU (1.7 miliwn o oedolion) yn gallu cael talkSPORT ar AM mwyach; a

b) gallai deiliaid trwyddedau radio masnachol analog eraill, ac yn enwedig y rheini sy'n dal trwyddedau AM, fod â diddordeb yn y ffordd rydyn ni'n bwriadu ei ddefnyddio yn yr achos hwn.

3.21 Rydyn ni'n rhoi pedair wythnos i randdeiliaid roi sylwadau os ydyn nhw am wneud hynny. Yn ein barn ni, ac ystyried cwmpas cyfyng yr ymgynghoriad hwn, mae'r cyfnod hwn yn rhoi amser priodol i bartïon sydd â diddordeb ystyried ac ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

3.22 Byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau gan randdeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.

## Asesiad o'r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

3.23 Gyda'i gilydd, mae'r ddogfen hon yn cynnwys asesiad o'r effaith yn unol â'r diffiniad yn Adran 7 o Ddeddf 2003.

3.24 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

3.25 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf

1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydyn ni'n cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

3.26 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydyn ni'n asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

3.27 Rydyn ni wedi nodi effaith niweidiol bosibl ar y nodweddion gwarchodedig: oedran a rhyw. Mae'r data a ddarparwyd gan talkSPORT yn awgrymu mai dynion dros 30 oed yw ei gynulleidfa'n bennaf. Os bydd y cais hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai'n golygu na fyddai'r rheini yn y grwpiau hyn sy'n cael eu gwasanaethu gan y pedwar safle trosglwyddyddion yn gallu cael talkSPORT ar AM mwyach. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu bod yr effaith hon yn debygol o gael ei lliniaru gan fod llwyfannau eraill i wrando ar talkSPORT ar gael gan gynnwys teledu (Freeview, Sky a Virgin), DAB, a'r rhyngrwyd.

3.28 Nid ydym wedi gweld yr angen i gynnal asesiad ar wahân o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r grwpiau cydraddoldeb ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon: cred grefyddol, barn wleidyddol a dibynyddion. Y rheswm am hyn yw ein bod yn rhagweld na fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig gan talkSPORT yn cael effaith wahaniaethol yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â defnyddwyr yn gyffredinol.

3.29 Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi fframwaith cyfreithiol a oedd yn gosod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Nid ydym yn credu y bydd cynnig talkSPORT i gau 4 safle trosglwyddyddion ar unwaith yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dyma'r rhesymau pam. Yn gyntaf, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ardal darpariaeth radio AM talkSPORT ac nid yw'n ymwneud â chynnwys a ddarperir gan talkSPORT. Yn ail, nid yw talkSPORT yn darparu rhaglenni Cymraeg o gwbl. Yn drydydd, nid oes yr un o'r trosglwyddyddion maen nhw'n bwriadu eu cau yng Nghymru. Byddwn yn croesawu barn rhanddeiliaid am yr asesiadau effaith sydd yn y ddogfen hon.

# 4. Ein hasesiad dros dro

## Crynodeb o gais a rhesymeg talkSPORT

4.1 Mae talkSPORT wedi cynnig:

a) **cau pedwar safle trosglwyddyddion ar unwaith:** Dumfries (Dumfries a Galloway), Kingston upon Hull (East Riding of Yorkshire), Fern Borrow (Bournemouth) a Greenside Scalp (Tayside). Roedd talkSPORT wedi nodi bod y pedwar safle trosglwyddyddion hyn yn safleoedd a allai fod yn anhyfyw yn barod.

b) **cau un deg tri safle yn raddol dros y blynyddoedd nesaf pan fyddant yn anhyfyw**: Fareham (Hampshire), Stockton (Durham/Gogledd Swydd Efrog), Lydd (Caint), Southwick/Brighton (Gorllewin Sussex), Dartford Tunnel (Caint), Clipston (Gorllewin Swydd Northampton), Duxhurst (Surrey), Wallasey (Swydd Gaer), Lisnagarvey (Swydd Antrim, Gogledd Iwerddon), Boston (Suffolk), Wrekenton (Newcastle), Postwick (Norfolk), a Rusthall (Tunbridge Wells).

Mae talkSPORT wedi nodi pedwar safle trosglwyddyddion fel y rhai i'w cau ar unwaith ar y sail eu bod eisoes yn anhyfyw, ac wedi gofyn am hyblygrwydd i gau pob un ond pump o'r safleoedd sy'n weddill ar sail dreigl, yn amodol ar ddata gwrandawyr a hyfywedd. Mae Ofcom wedi rhoi gwybod i'r Trwyddedai mai dim ond y safleoedd trosglwyddyddion sydd wedi'u nodi ar gyfer eu cau ar unwaith y gallwn eu hystyried, a bydd angen i talkSPORT gyflwyno ceisiadau ar wahân yn y dyfodol mewn perthynas â'r 13 safle arall. Os caiff y cais hwn ei gymeradwyo, y safleoedd i'w cau ar unwaith felly fydd Dumfries (yr Alban), Kingston upon Hull (East Riding of Yorkshire), Fern Borrow (Bournemouth) a Greenside Scalp (Tayside).

4.2 Mae talkSPORT yn datgan eu bod yn ymrwymo i roi gwybod i wrandawyr y bydd cau'r safleoedd a nodir yn effeithio arnynt, gan gyfathrebu'n benodol ac yn amserol gyda'r nod o symud cynulleidfaoedd i DAB, teledu digidol a llwyfannau ar-lein.

4.3 Os caiff cynnig talkSPORT i gau pedwar safle ar unwaith ei gymeradwyo, dyma'r deunaw safle fydd ar ôl: Brookman's Park (Swydd Hertford), Droitwich (Gogledd Swydd Caerwrangon), Moorside Edge (Gogledd Swydd Efrog), Westerglen (Falkirk), Washford (Gwlad yr Haf), Fareham (Hampshire), Stockton (Durham/Gogledd Swydd Efrog), Lydd (Caint), Southwick/Brighton (Gorllewin Sussex), Dartford Tunnel (Caint), Clipston (Gorllewin Swydd Northampton), Duxhurst (Surrey), Wallasey (Swydd Gaer), Lisnagarvey (Swydd Antrim, Gogledd Iwerddon), Boston (Suffolk), Wrekenton (Newcastle), Postwick (Norfolk) a Rusthall (Tunbridge Wells).

4.4 Mae talkSPORT wedi cyfrifo y byddai ei gais cychwynnol i gau pob un ond pum safle trosglwyddydd yn golygu y byddai darpariaeth ei wasanaeth trwyddedig i gartrefi yn y DU yn gostwng o 93% i 85% (gweler y map yn Atodiad 6 ar gyfer cyflwyniad talkSPORT ar gyfer yr ardaloedd yr effeithir arnynt). Fodd bynnag, ar sail cau'r pedwar safle sydd wedi'u clustnodi i'w cau ar unwaith, mae Ofcom wedi cyfrifo y byddai'r newid hwn yn arwain at ostwng darpariaeth ei wasanaeth trwyddedig i 89.9% o boblogaeth y DU.

4.5 Mae Ofcom wedi cyfrifo y byddai'r newidiadau hyn yn golygu bod darpariaeth ei wasanaeth trwyddedig i boblogaeth oedolion (15 oed a hŷn) yn y DU yn gostwng o 93% i 89.9% ac y byddai 1.7 miliwn o oedolion yn y DU yn colli mynediad at y gwasanaeth AM.

4.6 Mae talkSPORT o'r farn y bydd diffodd y pedwar trosglwyddydd yn y cais yn arwain at ostyngiad cymharol fach yng nghyfran y gwrandawyr na fyddant yn gallu derbyn y gwasanaeth mwyach ar AM, a bydd y ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd, os nad ym mhob un, yn parhau i gael ei darparu drwy DAB ac ar draws llwyfannau eraill sydd ar gael.

4.7 Mae talkSPORT yn nodi, yn dilyn y cynnig a wnaed yn 2019, fod gostyngiad parhaus wedi bod mewn niferoedd sy'n gwrando ar analog ar gyfradd gyflymach nag a ragwelwyd, ac nid yw'r niferoedd sy'n gwrando ar y safleoedd y mae talkSPORT am eu cau, ar sail data RAJAR, ar lefelau arwyddocaol mwyach oherwydd ymddygiad cynulleidfaoedd wedi newid. Mae eu dadansoddiad o ddata RAJAR Ch3 2022 yn cadarnhau'r gostyngiad parhaus tymor hir yn y niferoedd gwrando ar AM a bod y safleoedd y nodwyd eu bod yn flaenoriaeth i'w cau yn parhau felly o ganlyniad i'r data diweddaraf. Ar sail yr amcanestyniadau presennol, mae talkSPORT yn honni y gallai ei rwydwaith AM fod yn gwbl anhyfyw erbyn dechrau 2026.

4.8 Mae talkSPORT wedi cyfrifo, gan ddefnyddio data RAJAR sy'n canolbwyntio ar oriau gwrando'r gwasanaeth talkSPORT, a nodir yn y graff ar dudalen 1 ei gynnig (sydd i'w weld yn Atodiad 6), gostyngiad o 50% yn oriau gwrando AM yn ystod y tair blynedd diwethaf.

4.9 Mae talkSPORT yn nodi argymhelliad y DCMS y dylai 'diwydiant ddechrau cynllunio ar gyfer ymddeoliad tymor hir gwasanaethau analog a llunio cynllun i newid o wasanaethau AM ar ryw adeg yng nghanol y 2020au '.[16]

4.10 Ar ben hynny, mae talkSPORT wedi comisiynu arolwg o ddata gwrando platfformau a fydd yn dechrau ochr yn ochr â RAJAR Ch1 2023. Bydd hyn yn golygu bod modd dilysu gwrando AM ar y gwasanaeth i ategu unrhyw gynigion y mae'n dymuno eu gwneud yn y dyfodol i ddiffodd safleoedd trosglwyddyddion ychwanegol.

4.11 Mae talkSPORT yn nodi amcanion y Llywodraeth o ran arbed ynni ac effeithlonrwydd ynni ac yn datgan, yng ngoleuni'r cyd-destun polisi hwn a data cynulleidfa, ei bod yn bwriadu cau pob un ond pump o'i safleoedd pŵer uchel craidd, gan ddechrau gyda'r pedwar a nodwyd i'w cau ar unwaith, sy'n destun yr ymgynghoriad hwn.

## Safbwynt rhagarweiniol Ofcom ynghylch y cais

### Cydymffurfio ag amodau'r drwydded

4.12 Fel y nodwyd eisoes yn Adran 3 ( paragraff 3.8), Amod 2 (1) o'r Drwydded Darlledu, mae angen sicrhau bod y gwasanaeth trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r DU "fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro."

[16] https://www.gov.uk/government/publications/digital-radio-and-audio-review

4.13 Yn ein barn ni, y tu hwnt i ystyriaethau ynghylch yr hyn sy'n bosibl yn dechnegol ac yn logistaidd o ran darpariaeth trosglwyddiad (er enghraifft, argaeledd safleoedd trosglwyddiad addas), y trothwy "rhesymol yn ymarferol" yw sicrhau cymesuredd rhwng anfanteision i'r trwyddedai ar un llaw, a'r manteision i wrandawyr posibl ar y llaw arall.

4.14 Yn ôl amcangyfrifon Ofcom, ni fyddai tua 3.1% o boblogaeth oedolion y DU (1.7 miliwn o oedolion 15 oed a hŷn) yn gallu cael talkSPORT ar AM mwyach.

4.15 Rydym hefyd yn nodi'r dirywiad tymor hir ym mhoblogrwydd gwrando ar y band AM, ac y byddai llawer o'r rheini a fyddai'n colli'r gallu i gael gafael ar signal talkSPORT AM yn gallu parhau i dderbyn talkSPORT drwy radio digidol DAB cenedlaethol. Yn yr ychydig o ardaloedd lle nad yw derbyniad amlblecs Digital One cenedlaethol ar gael, a lle mae darpariaeth DAB yn arbennig o isel, mae rhagor o ddewisiadau ar gael i wrando ar-lein, neu drwy'r teledu (mae'r orsaf ar gael ar blafformau Freeview, Sky a Virgin Media).

4.16 Yn ogystal, mae Ofcom yn nodi bod talkSPORT wedi ymrwymo i roi gwybod i wrandawyr yr effeithir arnynt "gan gyfathrebu'n effeithiol, yn benodol ac yn amserol gyda'r nod o symud cynulleidfaoedd i DAB, teledu digidol a phlatfformau ar-lein." Mae Ofcom o'r farn y bydd y dull hwn yn helpu i liniaru dieithrio'r gwrandawyr hyn drwy roi digon o amser iddynt ystyried a mudo i'r platfform mwyaf priodol er mwyn iddynt barhau i wrando ar y gwasanaeth talkSPORT.

## Effaith ar gynulleidfaoedd

4.17 Ar sail yr wybodaeth a roddwyd i Ofcom gan talkSPORT, byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael yr effeithiau canlynol:

a) byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu y byddai tua 1.7 miliwn[17] o oedolion 15 oed a hŷn yn y DU yn colli'r gallu i gael signal AM talkSPORT;

b) o'r rhain, byddai tua 1.3 miliwn [18]yn gallu gwrando ar talkSPORT ar radio digidol DAB yn lle hynny;

c)felly, byddai tua 270,497 [19] o oedolion 15 oed a hŷn yn y DU yn colli darpariaeth AM ac ni fyddai ganddynt yr opsiwn o wrando ar talkSPORT ar radio digidol DAB. Fodd bynnag, maen nhw'n debygol o allu gwrando ar talkSPORT drwy'r rhyngrwyd a phlatfformau digidol eraill.

d) yn achos Dumfries, mae mapiau a ddarperir gan talkSPORT yn dangos na fydd cael gwared â'r trosglwyddydd Dumfries yn cael ei liniaru gan ddarpariaeth DAB. Gwelwn o ffigurau gwrando talkSPORT [20] yn Ardal Gwasanaeth Targed Dumfries (y "TSA") mai dim ond cyfran fach o wrandawyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar AM. Mae AM yn cyfrif am 6% rheini sy'n gwrando yn ardal ddarlledu AM Dumfries, tra bo 75% o'r rheini sy'n gwrando ar AM yn yr ardal n gwneud hynny yn y car. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn uwch

[17] Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio ffigyrau poblogaeth Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr o ddata cyfrifiad 2001
[18] Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio data cyfrifiad 2011
[19] Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio data cyfrifiad 2011
[20] I gael rhagor o wybodaeth am ddadansoddiad talkSPORT o ffigurau gwrando yn yr ardal hwn, edrychwch ar y ddolen o'r enw "nifer gwrandawyr talkSPORT yn Dumfries " yn Atodiad 6.

mewn ardaloedd TSA yn yr Alban o gofio nad oes llawer o ddarpariaeth DAB a Freeview yno. Mae dadansoddiad Ofcom hefyd yn awgrymu y byddai’r cynigion hyn yn effeithio’n benodol ar gynulleidfaoedd yn Dumfries a Galloway oherwydd prinder platfformau eraill i newid iddynt. Y rheswm am hyn yw bod y ddarpariaeth drwy DAB yn Dumfries a Galloway yn gyfyngedig ac nad yw’r gwasanaeth ar gael yn eang ar Freeview. Byddai hyn yn golygu mai’r rhyngrwyd yw’r prif blatfform ar gyfer cael gafael ar y gwasanaeth.

## Asesu yn erbyn dyletswyddau statudol Ofcom

4.18 Fel y nodwyd yn Adran 3, wrth ystyried pe byddai talkSPORT yn parhau i gydymffurfio ag amodau ei drwydded,mae angen i ni hefyd ystyried dyletswyddau statudol ehangach Ofcom.

4.19 Prif ddyletswyddau Ofcom, fel y'u nodwyd yn adran 3 o Ddeddf 2003, yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu; a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. Mae’n rhaid i Ofcom hefyd sicrhau'r canlynol( ymhlith pethau eraill):

a) y gwneir y defnydd gorau posib o delegraffiaeth ddi-wifr y sbectrwm electromagnetig;

b) bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda’i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi’u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau; a

c) cynnal amrywiaeth ddigonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol.

4.20 Wrth ystyried yr angen i sicrhau’r defnydd gorau posibl o sbectrwm, er ein bod yn cydnabod y byddai gweithredu cynigion talkSPORT yn golygu na fyddai tua 3.1% o boblogaeth oedolion y DU yn gallu cael talkSPORT ar ei rwydwaith AM mwyach, byddai talkSPORT yn parhau i ddefnyddio’r sbectrwm perthnasol i ddarlledu i gyfran uchel (89.9%) o boblogaeth oedolion y DU. Felly, yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydyn ni o’r farn y byddai cynnig talkSPORT i barhau i ddarlledu ei wasanaeth trwyddedig i 89.9% o boblogaeth oedolion y DU yn dal i sicrhau’r defnydd gorau posibl o sbectrwm;

4.21 O ran yr angen i sicrhau **lluosogrwydd gwasanaethau a darparwyr**, nodwn fod Ofcom yn trwyddedu amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio ar draws y DU, ar amrywiaeth o blatfformau gwahanol, gydag amrywiaeth o fformatau rhaglenni gwahanol. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai’r mwyafrif helaeth o wrandawyr talkSPORT y mae ei gynigion yn effeithio arnynt yn gallu ail-diwnio i’r gwasanaeth ar radio DAB cenedlaethol. Rydym hefyd yn nodi y byddai argaeledd talkSPORT ar blatfformau darlledu amgen (h.y. ar blatfformau Freeview, Sky a Virgin Media) a’r rhyngrwyd yn cyfrannu ymhellach at liniaru unrhyw effaith niweidiol bosibl ar ddefnyddwyr. Yn olaf, fel y nodir ym mharagraff 4.17(d), rydym yn nodi bod mwy o gwestiwn ynghylch lluosogrwydd yn lleoliad Dumfries a Galloway oherwydd diffyg argaeledd y gwasanaeth talkSPORT ar draws DAB a Freeview, er y byddai gwrandawyr yn yr ardal hon yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaeth ar y rhyngrwyd.

### Amrywio'r drwydded

4.22 Felly, yn amodol ar ystyried ymatebion rhanddeiliaid, rydym yn bwriadu derbyn cynigion talkSPORT a dileu'r cyfeiriad at y pedwar safle trosglwyddyddion y mae talkSPORT wedi cynnig eu cau ar unwaith o'i Drwydded Darlledu a'r Drwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, gan ddod i rym o'r dyddiad pan fydd talkSPORT yn bwriadu eu cau.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 17 Mawrth 2023.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/consultation-talksport-proposals-to-reduce-am-coverage. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i talksportconsultation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 17 Mawrth2023.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

talkSPORT Consultation (Ofcom Broadcast Licensing Team) Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Dylech gael ateb awtomatig gennym yn cadarnhau bod e-bost wedi dod i law. Os na fyddwch yn cael ateb awtomatig gennym, cysylltwch â broadcast.licensing@ofcom.org.uk.

A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Amna Malik drwy adael llaisbost ar 020 7981 3002, neu anfon e-bost at talksportconsultation@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan – Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.

A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym mis Ebrill 2023.

A1.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw eich sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A4. Cwestiynau ymgynghori

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Ofcom roi ei gydsyniad i gau'r pedwar safle trosglwyddyddion a gynigiwyd gan talkSPORT, a fydd, o ganlyniad, yn arwain at leihau y ddarpariaeth trosglwyddyddion AM (tonfedd ganolig) a fydd ar gael? Os nad ydych chi yn cytuno, rhowch y rhesymau.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno na fydd unrhyw effaith ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y cynnig hwn yn ymwneud ag ardal ddarpariaeth AM ac nad oes yr un o'r trosglwyddyddion yr effeithir arnynt wedi'u lleoli yng Nghymru? Os nad ydych chi yn cytuno, rhowch y rhesymau.

# A5. Trwydded darlledu talkSPORT

Caiff yr atodiad hwn ei gyhoeddi fel dogfennau ar wahân

# A6. Cyflwyniad talkSPORT

newidiadau arfaethedig talkSPORT i nifer ei safleoedd trosglwyddyddion (Cyhoeddir yr atodiad hwn fel dogfen ar wahân)

Ymateb talkSPORT i gwestiynau ymgynghori Ofcom (Caiff yr atodiadau hwn ei gyhoeddi fel dogfennau ar wahân)

Darparwyd data gwrando Dumfries gan talkSPORT (Caiff yr atodiadau hwn ei gyhoeddi fel dogfennau ar wahân)